

CYNGOR CYMUNED LLANDYSUL COMMUNITY COUNCIL

Cofnodion Cyfarfod Misol Cyngor Cymuned Llandysul Community Council a gynhaliwyd yng Nghanolfan Ieuenctid Tysul Youth Centre, Llandysul , ar 10 Ionawr 2011

Minutes of Monthly Meeting of Cyngor Cymuned Llandysul Community Council held at Canolfan Ieuenctid Tysul Youth Centre, Llandysul, on 10 January 2011

Yn Bresennol/Present: Cyng/Cllrs Richard Anwyl Tom Cowcher Douglas Davies Peter Davies Philippa Davies Keith Evans Wyn Evans Terry Griffiths Philip Marchant Mrs Carolyn-Reed Rees (Chair) and Breian Teifi.

- 1 **Ymddiheuriadau/Apologies:** Cafwyd ymddiheuriadau gan/Apologies were received from:- Cyng/ Cllrs Mrs Eileen Curry, Beth Davies and Andrew Howell
- 2 **Datgelu Buddiannau/Declaration of Interest:** Dim/None.
- 3 **Cofnodion/Minutes:** Derbyniwyd bod cofnodion y cyfarfod misol a gynhaliwyd ar 13 Rhagfyr 2010 yn gywir, yn unol â diwygiad, ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd/Minutes of monthly meeting held on 13 December 2010 were accepted as correct subject to an amendment and signed by the Chair.
- 4 **Materion yn Codi:** Tynnwyd sylw'r Clerc at y ffaith y dylai paragraff "12" mewn perthynas â Biniâu Graean nodi Rhiwfelen ac fe'i diwygiwyd. Symudwyd y goleuadau traffig o Bont-siân erbyn hyn. Anfonir llythyr at Geredigion i ddiolch am eu hymdrechion yn ystod y tywydd garw.
- 4 **Matters Arising:** It was brought to the Clerk's attention that paragraph "12" in connection with Grit Bins should read Rhiwfelen and was amended. Pontsian traffic lights have now been removed. Letter to be forwarded to Ceredigion thanking for their efforts during bad weather conditions.
- 5 **Rhoddion:**
 - (i) Penderfynwyd trafod y ceisiadau canlynol am grantiau ar ddiwedd y flwyddyn ariannol:- Eisteddfod Ryngwladol Llangollen ac Ambiwllans Awyr Cymru.
 - (ii) Cafwyd **cydnabyddiaeth derbyn Rhodd** wrth Llandysul a Phontweli Ymlaen mewn perthynas â'r Ffair Nadolig.
 - (iii) Mae **Llandysul a Phontweli Ymlaen** yn barod i gael y grant ar gyfer y Bws Cymunedol a chafwyd tystiolaeth gefnogol i gadarnhau hynny. Cytunwyd yn flaenorol y byddai grant o £4,000 yn cael ei roi, a chymeradwywyd y dylid ei dalu. Cafwyd gwahoddiad i lansio Bws y Gymuned a Llyfryn newydd Llandysul.
- 5 **Donations:**
 - (i) It was decided to discuss the following grant applications at the end of the financial year:- Llangollen International Eisteddfod and Wales Air Ambulance.
 - (ii) **Acknowledgement of receipt of Donation** was received from Llandysul a Phontweli Ymlaen re Christmas Fair.
 - (iii) **Llandysul a Phontweli Ymlaen** are ready to receive the grant for the Community Bus and supporting evidence was received. Grant previously agreed in the sum of £4,000 was approved for payment. An invitation was received to attend the launch of the Community Bus and new Llandysul Booklet.
- 6 a) **Dyfnbrisiau gwaith ar Lwybrau Troed** Cafwyd dyfnbrisiau gan Profix (£537.84) a Meredith Williams (£600).
- 6 a) **Quotes for work on Footpaths** were received from Profix(£537.84) and Meredith Williams (£600).

Parhad Dyfynbrisiau/

b) **Dyfynbrisiau gwaith cynnal a chadw**:- Cafwyd dyfynbrisiau a oedd yn amrywio wrth Profix a Meredith Williams. Cynigiodd Cyng Tom Cowcher y dylem dderbyn y dyfynbrisiau rhataf yn ymwneud â'r Llwybrau a'r Gwaith Cynnal a Chadw ar wahân, eiliwyd hyn gan Gyng Terry Griffiths ac fe'i derbyniwyd. Roedd Cyng Keith Evans yn dymuno cofnodi ei fod wedi ymatal rhag pleidleisio. Bydd Profix yn cyflawni'r gwaith ar y Llwybrau Troed a bydd Meredith Williams yn cyflawni Gwaith Cynnal a Chadw. Cafwyd un dyfynbris ar ôl i'r dyddiad cau fynd heibio, ac ni chafodd hwn ei ystyried.

7 **Biniau Halen/Graean** – Os byddwn yn prynu'r biniau, hysbyswyd y Clerc gan yr adran Briffyrdd na fydd modd i ni eu gosod ar Briffyrdd ac mae hyn yn cynnwys y lleiniau glas wrth ymyl y ffordd. Penderfynwyd y bydd Cyng Keith Evans yn cysylltu gyda Ceredigion ar ein rhan. Cafwyd llythyr wrth Gyng Peter Davies a phenderfynwyd gofyn i Geredigion ailystyried gosod bin graean yn Heol Ifor, Llanfihangel-ar-Arth ac i ofyn am fin Graean ar ben y rhiw i Faesymeillion o Bostbach.

8 **Hyfforddiant i Gynghorwyr** – mae ULIC wedi cadarnhau bod modd trefnu hyfforddiant yn Llandysul ond nid ydynt wedi anfon dyddiadau addas atom eto i ni eu hystyried. Penderfynwyd y byddai un bore yn ddigon. Bydd y Clerc yn cysylltu ag ULIC i holi ynghylch y posibilrwydd o gynnal sesiwn hyfforddi ar y cyd gyda Chynghorau Cymunedol lleol eraill.

9 **Praesept 2011/2012**:- Cynigiodd Cyng Keith Evans y dylid cadw'r Praesept yr un fath, eiliwyd y cynnig hwn gan Gyng Douglas Davies ac fe'i derbyniwyd, sef $1165.96 \times £27.29 = £31,819.05$.

10 **BDO LLP**:- Cafwyd llythyr a oedd yn cadarnhau bod yr archwiliad wedi cael ei gwblhau ac fe'i cymeradwywyd unwaith eto gan y Cyngor. Arddangoswyd posteri "Hysbysiad Cwblhau Archwiliad". Cafwyd Nodyn bod Ffi o £334.88 yn daladwy a derbyniwyd y dylid ei thalu.

Quotes continued/

b) **Quotes for Maintenance work** which varied were received from Profix and Meredith Williams. It was proposed by Cllr Tom Cowcher that we accept the lowest quotes in connection with Footpaths and Maintenance work separately, this was seconded by Cllr Terry Griffiths and carried. Cllr Keith Evans wished to record that he had abstained from voting. Work on Footpaths will be carried out by Profix and Maintenance work by Meredith Williams. Quote received after the closing date was not considered.

7 **Salt/Grit Bins** – The Clerk has been informed by Highways department that if we purchase the bins, they cannot be located on Highways and this includes grass verges. It was decided that Cllr Keith Evans will liaise with Ceredigion on our behalf. Letter was received from Cllr Peter Davies and it was decided to request that Ceredigion reconsider providing a grit bin at Heol Ifor, Llanfihangel-ar-Arth and request a Grit bin at the top of the hill approaching Maesymeillion from Postbach.

8 **Training For Councillors** – OVW have confirmed that training can be arranged at Llandysul but have not yet forwarded suitable dates for consideration. It was decided that a morning would be sufficient. Clerk is to contact OVW enquiring as to the possibility of a joint training session with other local Community Councils.

9 **Precept 2011/2012**:- It was proposed by Cllr Keith Evans and seconded by Cllr Douglas Davies that the Precept should remain the same and this was carried being $1165.96 \times £27.29 = £31,819.05$.

10 **BDO LLP**:- Letter was received confirming that the audit has been completed and was again approved by the Council. "Notice of Conclusion of Audit" posters have been displayed. Fee Note was received in the sum of £334.88 and passed for payment.

11 Gohebiaeth:

- a) Cafwyd y canlynol wrth Geredigion:- Penderfynwyd uno cyfarfodydd y Pwyllgor Safonau a'r Is-Bwyllgor Safonau gan greu un cyfarfod Pwyllgor Safonau, a nodwyd y dyddiadau cau er mwyn gwneud cais am ollyngiad. Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion (2007-2022) - Ymgynghoriad Adneuo (2010) - Bydd y cyfnod ymgynghori ar gyfer y dogfennau yn dod i ben ar 17 Chwefror 2011, rhoddwyd awdurdod dirprwyedig i Gyng Carolyn Reed-Rees i ymateb. Mae Cynllun Grantiau Toiledau Cymunedol LICC ar gael i safleoedd busnes ar draws Ceredigion.
- b) Ynadon yn y Gymuned – Cafwyd Taflen Werthuso ac roedd pawb yn cytuno y bu'r cyflwyniad yn ddiddorol ac yn un a groesawyd.
- c) BT – Mabwysiadu Ciosgau yng Nghapel Dewi, Pren-gwyn a Thre-groes. Cafwyd copi o'r Contract wedi'i lofnodi ac ar ôl i'r offer ffôn gael ei dynnu allan ohonynt, anfonir hysbysiad cwblhau.
- d) WPD – Cafwyd tystysgrif cyflenwad heb ei fesur ynghylch y Goleuadau Nadolig.
- e) Cafwyd Chwarae i Gymru.
- f) Llinos Jones Gwasanaeth Cyfieithu – Cafwyd anfoneb am y swm o £189.25 am y gwasanaeth cyfieithu ym mis Rhagfyr a derbyniwyd y dylid ei thalu.
- g) Gwasanaeth Glanhau Abacus – Cafwyd anfoneb am y swm o £243.25 am lanhau 9 lloches bws a 2 loches bws traddodiadol a derbyniwyd y dylid ei thalu. Cafwyd adroddiad ynghylch peryglon a bydd hon yn cael ei hanfon ymlaen at Geredigion.
- h) SLCC – Cafwyd hysbysiad o'r ffaith y cynhelir Cyfarfod Cangen ar 22 Ionawr 2011 a bydd y Clerc yn mynychu.
- i) Cafwyd Clerks & Councils Direct.
- j) Y Lleng Brydeinig Frenhinol – Cafwyd pamffled ynghylch “Penwythnos Fawr Partïon y Pabi” a gynhelir ar 10 – 12 Mehefin 2011 er mwyn dathlu pen-blwydd y Lleng yn 90 oed. Penderfynwyd anfon y llythyr hwn ymlaen at sylw Mrs Elliott – Cangen Llandysul y Lleng Brydeinig.
- k) ULIC – Cafwyd Y Llais
- l) Elin Jones AC – Cafwyd posteri ac fe'u dosbarthwyd.
- m) WPD - Golau Stryd Brynhyfryd (Maesymeillion) - Cafwyd anfoneb yn y swm o £424.70 a derbyniwyd y dylid ei thalu.

11 Correspondence:

- a) The following were received from Ceredigion:- Standards Committee meetings have merged with the Standards Sub-Committee to form a single Standards Committee meeting and the deadline dates were given to apply for dispensation. Ceredigion Local Development Plan (2007-2022) – Deposit Consultation (2010) – Consultation period for the documents will end on 17 February 2011, Cllr Carolyn Reed-Rees was given delegated authority to respond. WAG Community Toilet Grant Scheme is available for business premises throughout Ceredigion.
- b) Magistrates in the Community – Evaluation Sheet was received, all were in agreement that the presentation was well received and interesting.
- c) BT – Adoption of Kiosks at Capel Dewi, Prengwyn and Tregroes. A copy of the signed Contract was received and once the payphone equipment is removed a completion notice will be forwarded.
- d) WPD – Certificate of unmetered supply was received re Xmas Lighting.
- e) Play for Wales was received.
- f) Llinos Jones Gwasanaeth Cyfieithu – Invoice for translating for December was received in the sum of £189.25 and passed for payment.
- g) Abacus Cleaning Service – Invoice for cleaning 9 bus shelters and 2 traditional bus shelters was received in the sum of £243.25 and passed for payment. A report of hazards was received and is to be forwarded to Ceredigion.
- h) SLCC – Notice of Branch Meeting to be held on 22nd January 2011 was received and Clerk will be attending.
- i) Clerks & Councils Direct was received.
- j) The Royal British Legion – Brochure re “Great Poppy Party Weekend” on 10th – 12th June 2011 celebrating the Legion’s 90th birthday was received. It was decided to forward this for the attention of Mrs Elliott - Llandysul British Legion.
- k) OVW – The Voice was received
- l) Elin Jones AM – Posters were received and distributed.
- m) WPD – Brynhyfryd Street Light (Maesymeillion) – Invoice in the sum of £424.70 was received and passed for payment.

12 **Gwobr Pobl Ifanc yn y Gymuned** – Yn absenoldeb Cyng Andrew Howell, penderfynwyd cynnwys y mater ar yr Agenda fis nesaf.

13 **Datblygiadau Blodau Llandysul** – Bydd yr eitem hon yn parhau ar yr agenda. (Gadawodd Cyng Peter Davies y cyfarfod ar yr adeg hon)

14 **Cynllunio**: Cafwyd hysbysiad ynghylch Cyfarfod y Pwyllgor Rheoli Datblygu i'w gynnal ar 12 Ionawr 2011. (Fel Cynghorydd Sir, roedd Cyng Peter Davies yn dymuno cofnodi nad oedd wedi mynegi barn mewn perthynas ag unrhyw rai o'r Ceisiadau Cynllunio).

Archwiliwyd a chymeradwywyd y cynllun canlynol:-
A101002 - Hazelwood, Capel Dewi – Anedd a Tŷ Allan

12 **Young People in the Community Award** – In the absence of Cllr Andrew Howell, it was decided to place the matter on the Agenda for next month.

13 **Development of Llandysul Flowers** – To remain on the Agenda. (Cllr Peter Davies left the meeting at this stage)

Planning: Notice of the Development Control Committee Meeting to be held on 12 January 2011 was received. (Cllr Peter Davies as County Councillor wished to record that he had not expressed an opinion in connection with any of the Planning Applications).

The following plan was inspected and approved:-
A101002 - Hazelwood, Capel Dewi – Dwelling and Outbuilding.